Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update






*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* CYHOEDDIAD 31: wythnos **16/08/2021**

## Cynnydd Wythnosol (9 - 16 Awst)

**Rydym nawr wedi brechu 89% o boblogaeth y Bwrdd Iechyd gyda'r dos cyntaf ac yn gwneud cynnydd da o ran yr ail ddosau gyda 84% o'r rheiny 18 oed a hŷn wedi'u brechu.**

## Apwyntiadau brechiad i bobl ifanc 16 a 17 oed



Hoffem roi sicrwydd i'n trigolion y byddwn yn cysylltu â phawb sy'n gymwys am frechlyn i gynnig apwyntiad dros yr wythnosau nesaf. Gofynnwn i chi beidio â chysylltu â ni i wneud cais am apwyntiad, ond gofynnwn i chi sicrhau bod eich manylion yn gyfredol gyda Phractis eich Meddyg Teulu. Anelwn at hysbysu pob unigolyn o leiaf wythnos cyn ei apwyntiad ac anfonir llythyrau i'ch cyfeiriad cartref cofrestredig a gedwir gan eich Meddyg Teulu..

Cynhelir apwyntiadau cychwynnol i rai 16 a 17 oed ar 23, 24 a 25 Awst, gyda chlinigau pellach wedi'u trefnu ar gyfer y rhai nad oeddent yn gallu mynychu eu hapwyntiad gwreiddiol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: https://gov.wales/written-statement-covid-19-vaccination-jcvi-announcement-vaccinating-children-young-people-0

## A oes gennych ffobia o nodwyddau?

Mae brechlynnau COVID-19 yn ddiogel ac effeithiol, ond mae ffobia o nodwyddau yn troi rhai pobl i ffwrdd. Canfu'r elusen Anxiety UK fod gan hyd at 10 y cant o oedolion ffobia o nodwyddau, a chanfu astudiaeth gan y Vaccine Alliance fod hyd at 10 y cant o betruster ynghylch cael y brechlyn ymhlith oedolion ifanc yn gysylltiedig yn uniongyrchol â ffobia o nodwyddau. Beth rydym yn ei wneud yn ardal ein Bwrdd Iechyd i helpu? Mae ein timau brechu yn brofiadol iawn wrth gefnogi cleifion nerfus. Anogir cleifion i roi gwybod i ni am eu pryderon wrth gyrraedd a chymerir y rheiny sy'n teimlo'n bryderus i un ochr a'u harwain i un o'n podiau preifat, ardal lle maent wedi'u gwahanu oddi wrth y brechu torfol sy'n digwydd ar y prif lawr, a lle gallant gael cyswllt un i un tawel â'r sawl sy'n brechu. Mae cleifion bob tro'n synnu at ba mor gyflym a hawdd ydyw ac yn gadael yn teimlo'n llawer mwy hyderus.

**Clinig Brechu Galw Heibio Wythnos 16-22 Awst**
**Gweler dros y ddalen am fanylion**

## FFIGYRAU BRECHU


(hyd at 09/08/2021)

**Cyfanswm nifer y brechlynnau Covid-19 wedi eu rhoi ar draws ardal ein Bwrdd Iechyd (cyfuniad o'r dos cyntaf a'r ail ddos)**

**845,125**

**Cyfanswm y dos cyntaf 435,244**

**Cyfanswm yr ail ddos 409,881**



GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus.
*Gyda'n gilydd byddwn yn cadw Gwent yn ddiogel.*

# Nid Ydym yn Gadael Neb Ar Ôl

**Wythnos Galw Heibio - Mae'r clinigau brechu galw heibio hyn ar gyfer dosau cyntaf Pfizer i unrhyw un sy'n 18 oed neu'n hŷn ac ail ddos i unrhyw un a dderbyniodd eu dos cyntaf ar 21 Mehefin, neu cyn hynny**

**Dydd Llun 16 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Stadiwm Cwmbrân Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS

**Dydd Mawrth 17 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Stadiwm Cwmbrân Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS
Canolfan Hamdden Trecelyn Stryd y Bont, Trecelyn NP11 5FE

**Dydd Mercher 18 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Stadiwm Cwmbrân Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 3YS
Canolfan Hamdden Trecelyn Stryd y Bont, Trecelyn NP11 5FE

**Dydd Iau 19 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Canolfan Hamdden Trecelyn Stryd y Bont, Trecelyn NP11 5FE
Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH

**Dydd Gwener 20 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH

**Dydd Sadwrn 21 Awst** Amser: 8.40am - 4pm
Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH
Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Ffordd y Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6AA

## Clinigau galw heibio Pfizer ar gyfer dosiau cyntaf yn unig i unrhyw un 18 oed a hŷn:

**Dydd Llun 16 Awst** Amser: 10am-3pm
Ysgol Nant Celyn, 22 Ffordd Henllys, Cwmbrân NP44 7DJ

**Dydd Llun 23 Awst** Amser: 10am-3pm
Maes Parcio Llyfrgell Bargoed, Heol Hanbury, Bargoed CF81 8Q

## Clinigau galw heibio AstraZeneca ar gyfer ail ddosiau yn unig:

**(mae'n rhaid i chi gael bwlch o 8 wythnos rhwng eich dos cyntaf a'ch ail ddos)**

**Dydd Sul 22 Awst** Amser: 10am – 4pm
Swyddfeydd Cyffredinol Blaenau Gwent, Ffordd y Gwaith Dur, Glynebwy NP23 6AA
Canolfan Hamdden Casnewydd, 1 Canolfan Ffordd y Brenin, Casnewydd, NP20 1UH

Am ragor o wybodaeth, ac i wneud cais am Basport Brechlyn Covid GIG, ewch i: https://llyw.cymru/manteisiwch-ar-bas-covid-y-gig-i-ddangos-eich-statws-brechu-er-mwyn-teithio

Cyhoeddir ffigyrau brechu dyddiol gan Iechyd Cyhoeddus ar eu gwefan: https://public.tableau.com/profile/public.health.wales.health.protection#!/vizhome/RapidCOVID-19virology-Public/Headlinesummary

Mwy a wybodaeth a Chwestiynau Cyffredin ar ddarpariaeth, cymhwysedd a diogelwch y brechiad, ewch i: https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/about-the-vaccine/

**Ymunwch â'r miloedd sydd wedi cael eu brechu... Ffoniwch 0300 303 1373 a byddwch yn cael cynnig apwyntiad dos cyntaf o fewn 72 awr.**

Mae data'n destun adolygiad gan fod mewnbynnu data a gwiriadau ansawdd data'n cael eu cynnal.

bipab.gig.cymru